**Arolygiad o dan Adran 28**
**Deddf Addysg 2005**

**Adroddiad ar Ansawdd Addysg yn**

**Ysgol Gymuned Penisarwaun**
**Penisarwaun**
**Gwynedd**
**LL55 3BW**

**Rhif yr Ysgol: 6612085**

**Dyddiad yr Arolygiad: 21/05/07**

**gan**

**Owen Glyn Roberts**
**78806**

**Dyddiad Cyhoeddi: 24/07/07**

**O dan rif contract Estyn: 1118806**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?**

**Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

116. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda. Trwy ystod o weithgareddau cwricwlaidd a chyfnodau rheolaidd megis sesiynau addoli ar y cyd, amser cylch a Chyngor yr Ysgol, caiff y disgyblion gyfleoedd da i ymarfer eu medrau ac i drafod materion sydd o bwys iddynt. Mae'r profiadau hyn yn cyfrannu'n dda at greu ethos dymunol yn yr ysgol.

117. Mae partneriaeth dda gyda'r rhieni, y gymuned, ysgolion a sefydliadau eraill. Mae nifer o rieni yn cyfrannu o'u harbenigedd i gynorthwyo cynlluniau megis prosiect garddio. Mae cymdeithas cyfeillion yr ysgol yn gefnogol iawn. Hoffai rhai rhieni weld gwaith cartref yn cael ei farcio'n gynt, dymunent dderbyn mwy o wybodaeth am yr hyn sy'n cael ei addysgu a chynnydd eu plant wrth i'r flwyddyn ysgol fynd rhagddi.

## Addysg grefyddol

Cyfnod allweddol 1: **Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

Cyfnod allweddol 2: **Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwyso diffygion**

### Nodweddion da

212. Mae gan ddisgyblion cyfnod allweddol 1 ymwybyddiaeth dda o'r Beibl fel llyfr arbennig i Gristnogion. Gallant ailadrodd prif bwyntiau hanesion o'r Hen Destament a'r Testament Newydd yn eu geiriau eu hunain.

213. Gwyddant am y prif wyliau crefyddol Cristionogol a gallant drafod rhai o'r prif ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â hwy.

214. Lluniant weddïau syml a phwrpasol eu hunain mewn amryw o gyd-destunau addas.

215. Gwnânt gynnydd addas yn eu gwybodaeth o'r grefydd Hindŵaidd.

216. Mae gan ddisgyblion cyfnod allweddol 1 ymwybyddiaeth dda o werthoedd megis cyfeillgarwch, caredigrwydd a bod yn ddiolchgar.

217. Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn sylweddoli mai Cristnogaeth yw prif grefydd Cymru. Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd Y Beibl fel llyfr sanctaidd Cristnogion a gallant ddisgrifio'r gwahaniaeth rhwng yr Hen Destament a'r Testament Newydd.

218. Yn gysylltiedig â gwaith ar y Deg Gorchymyn, mae'r disgyblion yn deall yn dda bwysigrwydd rheolau i gredinwyr a thrafodant bwysigrwydd rheolau mewn perthynas â'u bywydau eu hunain yn ystyrlon.

219. Gwyddant yn dda am gyfraniadau arweinwyr a chymwynaswyr megis Yr Esgob William Morgan a Dr Barnardo.

220. Maent yn gyfarwydd â rhai o brif grefyddau eraill y byd. Yn benodol gwyddant am nodweddion ac arferion Iddewiaeth.

### Diffygion

221. Nid yw disgyblion cyfnod allweddol 2 yn ddigon cyfarwydd â damhegion a gwyrthiau'r Iesu na'r negeseuon sydd y tu cefn iddynt.

222. Arwynebol yw dealltwriaeth disgyblion cyfnod allweddol 2 o arwyddocâd pererindod i gredinwyr.